



Dogfen Dychwelyd i'r Ysgol i Rieni / Gofalwyr (Ionawr 2022)

Rydyn yn eich croesawu yn ôl i YG Bro Ogwr ar gyfer Tymor y Gwanwyn. Isod mae canllawiau wedi'u diweddarau i helpu i baratoi'ch hun a disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol.

Rydym yn parhau i ofyn i ddisgyblion ymatal rhag dod ag eitemau diangen o'u cartref a'u bod ond yn mynychu gyda'r lleiafswm sydd ei angen arnynt (h.y. potel yfed a byrbryd, cinio wedi'i bacio os nad ciniawau ysgol, cot, het ac ati). Bydd ystafelloedd dosbarth yn parhau i gael eu hawyru'n naturiol yn unol â chanllawiau cyhoeddedig gyda ffenestri a drysau agored, lle bo angen ond hefyd yn sicrhau tymheredd cyffyrddus. Felly, gofynnwn i chi sicrhau bod gan eich plentyn ddillad priodol yn seiliedig ar y tywydd. Mae monitorau CO2 wedi cael eu gosod hefyd i helpu monitro'r awyru o fewn y dosbarthiadau.

Gweithdrefnau Dechrau a Diwedd Dydd

Gofynnir i ddisgyblion gyrraedd rhwng 08.50 a 09.00 a byddant yn cerdded yn syth i'r dosbarth, lle bydd staff yno i'w croesawu ac i hwyluso golchi dwylo wrth gyrraedd. Parhewch i ollwng eich plentyn / plant naill ai wrth giât y Meithrin neu giât Ffordd y Dywysoges; bydd disgyblion yn cerdded i'r dosbarth yn annibynnol gyda staff ar hyd pob llwybr ac iard i oruchwylio. Byddwn yn parhau gyda system unffordd ar iard yr ysgol a byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ddilyn yr arwyddion a'r marciau llawr.

Bydd casglu diwedd dydd fel arfer o'r 3 iard wahanol. Dilynwch y system unffordd ac yna pellter cymdeithasol ar yr iard er mwyn i'r staff eich gweld chi'n glir ac i chi dderbyn eich plentyn / plant yn ddiogel. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech **barhau i wisgo gorchudd wyneb tra ar dir yr ysgol a chyfyngu ar nifer yr oedolion sy'n casglu er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo**. Ar ddiwedd y tymor diwethaf gwelsom gynnydd sydyn yn nifer y rhieni / gofalwyr sy'n dod ar y safle gyda'i gilydd, ddim yn cadw pellter cymdeithasol a ddim yn gwisgo gorchudd wyneb.

Presenoldeb

O dan arweiniad Llywodraeth Cymru, ni ddylai dysgwyr fynychu ysgolion / lleoliadau o dan yr amgylchiadau:

- **teimlo'n sâl, cael unrhyw un o'r tri symptom cardinal COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, neu dymheredd uchel neu golli neu newid i'w synnwyr blas neu arogl) neu maent wedi profi'n positif i COVID-19 yn y gorffennol 10 diwrnod**

Os bydd disgybl yn cyflwyno symptomau tra ar y safle, bydd y disgybl yn cael ei ynysu a chysylltir â rhieni / gofalwyr ar unwaith i gasglu eu plentyn. **Gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich manylion cyswllt yn gywir ac yn gyfoes ar Ap Rhiant SIMS neu drwy swyddfa'r ysgol**, gan sicrhau eich bod yn darparu o leiaf un cyswllt y gellir ei gyrraedd yn ystod diwrnod ysgol arferol.

Mewn achos o ganlyniad positif, bydd Track and Trace yn cysylltu ag unrhyw achos cadarnhaol yn uniongyrchol i ofyn am fanylion a chysylltu â 'chysylltiadau agos' a nodwyd. Ni fydd hyn yn cael ei drin ar lefel ysgol mwyach. Parhewch i ddilyn cyngor a roddwyd gan Track and Trace os bydd eich plentyn yn profi'n positif am COVID-19. Bydd ysgol yn danfon llythyr Llywodraeth Cymru allan i rieni os bydd achos positif o fewn dosbarth eich plentyn. Parhewch i ddilyn canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnodau ynysu a gweithdrefnau cysylltiadau agos.

Gweithrediadau Dyddiol / Ystafell Ddosbarth

Rydym yn parhau i leihau risg trosglwyddo ar draws yr ysgol. Nid yw'n ofynnol i ddisgyblion wisgo gorchuddion wyneb ond mae croeso iddynt eu gwisgo os dymunant, gan sicrhau hylendid dwylo da cyn gwisgo a thynnu gorchudd wyneb. Rhestrir rhai o'n trefniadau gweithredol isod er gwybodaeth:

- Bydd amseroedd egwyl a chinio yn cael eu gwahanu i leihau'r risg o drosglwyddo - yn ystod yr amser cinio, bydd grwpiau dwy flynedd yn defnyddio'r un neuadd ond ar fyrddau ar wahân gyda pellter 2m rhyngddynt
- Ni fydd y siop 'bwyd' ffrwythau ar gael ar hyn o bryd - gall disgyblion ddod â'u byrbryd ffrwythau iach eu hunain ar gyfer egwyl (gwnewch yn siŵr bod unrhyw eitemau bach fel grawnwin / tomatos ceirios wedi'u chwarteru'n denau a bod unrhyw gynwysyddion wedi'u labelu'n glir ag enw eich plentyn)
- Gofynnir i rieni / gofawyr ddarparu opsiynau cinio pecyn hawdd i'w hagor
- Gofynnir i ddisgyblion fynd ag unrhyw wastraff cinio pecyn adref gyda nhw
- Bydd Gwasanaethau, Canu a Dathlu yn parhau gydag uchafswm o ddwy flynedd yn defnyddio'r gofod a rennir, gyda 2m o bellter rhyngddynt
- Bydd grwpiau blwyddyn dwy flynedd y tu allan ar gyfer amseroedd chwarae egwyl ac amser cinio, wedi'u gwahanu gan bellter 2m rhyngddynt
- Gofynnir i staff a disgyblion leihau eitemau sydd yn dod mewn i'r ysgol
- Mae gweithgareddau wedi'u cynllunio i wneud y defnydd gorau o ardaloedd awyr agored
- Mae'r amserlenni'n hyblyg a gellir eu haddasu lle bo angen
- Bydd yr holl staff yn atgyfnerthu ac yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd o drefn golchi dwylo wrth gyrraedd, ar ôl bwyta a dilyn peswch neu disian, ar ôl trin offer a rennir, yn dilyn cyswllt corfforol, cyn ac ar ôl trin bwyd a chyn ac ar ôl ymweld â'r toiledau
- Neilltuir staff i'r un grwpiau blwyddyn, lle bo hynny'n bosibl
- Bydd ffenestri a drysau ar agor ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd i ganiatáu awyru naturiol cyson, tra gadw tymheredd cyffyrddus hefyd
 - Gosodwyd monitorau CO2 i helpu monitro'r awyru naturiol
 - Bydd chwistrell diheintio ac hylif gwrthfacterol ar gael ym mhob ystafell ddosbarth a swyddfa bob dydd
 - Mae biniau ar wahân gyda chaeadau mecanyddol wedi'u gosod ym mhob ystafell ddosbarth yn benodol ar gyfer gwaredu tisws wedi'u defnyddio
 - Atgoffir staff a disgyblion o bwysigrwydd peidio â rhannu offer
 - Bydd desgiau, cadeiriau ac offer arall yn cael eu glanweithio / glanhau ar ddiwedd pob diwrnod
 - Bydd adnoddau a symudir o'r ysgol yn gyfyngedig e.e. darllen llyfrau yn unig

Monitro

Gall y trefniadau a'r gweithdrefnau hyn newid wrth i weithrediadau gael eu monitro a'u hadolygu dros amser. Bydd unrhyw newidiadau neu welliannau, os bydd angen, yn cael eu cyfleu i rieni cyn gynted â phosibl.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus

Dymuniadau Gorau

Bro Ogwr Staff